| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Fforwm Cyllideb Ysgolion** |
| **DYDDIAD** | **19eg Tachwedd, 2018** |
| **PWNC** | **Newidiadau yng nghostau cyswllt a darpariaeth rhwydwaith i ysgolion y Sir** |
| **AWDUR** | **Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid Busnes)** |

Cefndir

1. Fe gyflwynodd cynllun "Dysgu yn y Gymru Ddigidol" gysylltiadau cyflym a sefydlog i ysgolion Cymru a'r sail 10mbps i ysgolion cynradd a 100mbps i ysgolion uwchradd a cynradd dros 270 o ddisgyblion.
2. Cyflwynwyd y cynllun ar gychwyn 2014, gan ymestyn hefyd i gynnwys cysylltiadau di-wifr drwy'r ysgolion.
3. Cafwyd buddsoddiadau enfawr mewn rhai ardaloedd, yn enwedig ambell lecyn ddiarffordd ble nad oedd isadeiledd Openreach yn cyrraedd yr ysgol. Pwrpas y buddsoddiad oedd i gyflwyno cysylltiadau ffibr fyddai'n hyblyg i gynyddu cyflymder i'r rhwydwaith ar gyfer y dyfodol.
4. Mae darpariaeth cadarn yn oll o ysgolion y Sir a byddwn yn gweld cyflymder yr ysgolion yn cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd nesaf wrth i gynllun adnewyddu gael ei gyflwyno.
5. Mae newidiadau i'r rhwydwaith wedi ein galluogi i wella darpariaeth teleffoni oddi fewn nifer o ysgolion, gydag 26 o ysgolion wedi eu cwblhau hyd yma.
6. Yn ogystal ac ymgyrchu a gweithredu i gyflwyno gwell gwasanaeth, mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi bod yn negodi am ffioedd cystadleuol gyda BT Global Services (darparwr rhwydwaith sector gyhoeddus Cymru).
7. Mae'r ymgyrchu am delerau gwell wedi cyflwyno arbedion o £164,252 y flwyddyn ar draws ysgolion Gwynedd.
8. Mae datblygiadau technegol wedi cyflwyno arbedion pellach o £55,321 y flwyddyn.
9. Mae cost y gwasanaeth ac hefyd dyraniad ysgolion yn lleihau am yr un swm.
10. Parhau fydd ein gweithgareddau i wella'r rhwydwaith a chysylltedd i oll o ysgolion Gwynedd gan warchod unrhyw gynnydd yn y costau blynyddol.
11. Mae hyn yn rhoi cyfle i adolygu y sail dyrannu. Bwriedir ymgynghori gydag ysgolion ar y opsiynau isod –
    a. parhau gyda'r drefn presennol
    b. symud yn agosach tuag at ddosbarthu ar sail nifer disgyblion